**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Medi 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 32. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes a P. Prendergast.

## 33. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED (WARD DERWEN)

Adroddodd Clerc y Dref bod Miss Sarah L. Roberts wedi ei hethol a chroesawodd hi'n ôl i'r Siambr.

## 34. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED (WARD BRYNHEDYDD)

Dywedodd Clerc y Dref y byddai is-etholiad ar 13eg Medi, gyda thri ymgeisydd yn sefyll.

## 35. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – GORFENNAF/AWST 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 533 | Shire Leasing | 337.33 | Taliad prydles chwarterol system ffôn Avaya |
| 534 | BT | 391.38 | Rhentu a thaliadau galwadau |
| 535 | BT | 88.86 | Rhentu llinell |
| 536 | Sioned-Graham Cameron | 468.25 | Ffioedd Cyfieithu |
| 468 | Sage & Co | 31.00 | Ffioedd Cyflogres Gorffennaf 2018 |
| 537 | HSBC | 5.50 | Taliadau banc 17eg Mai i 16eg Mehefin 2018 |
| 475 | Cyngor Sir Ddinbych | 707.00 | TANC ar gyfer Ffordd Wellington – taliad 4 o 19 |
| 476 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 4 o 12 |

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 538 | Cyngor Sir y Fflint | 4,214.51 | Cyfraniadau Pensiwn a Diffyg Mehefin 2018 |
| 539 | HMRC | 2,649.55 | Didyniadau Cyflog Mehefin 2018 |
| 540 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,763.70 | Cyflogau Staff Gorffennaf 2018 |
| 541 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Mehfin 2018 |
| 542 | Neopost | 200.00 | Ariannu Peiriant Ffrancio |
| 550 | Sage & Co | 107.00 | Gwasanaethau Cyflogres – talu ôl-ddyledion |
| 477 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Arbed Ynni 17/18 – taliad 2 o 4 |
| 551 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,500.00 | Ffi Rheoli CGTynewydd Ch2 2018/19 |
| 552 | HSBC | 11.90 | Taliadau banc 17eg Mehefin i 16eg Gorffennaf 2018 |
| 561 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,206.24 | Cyflogau staff Awst 2018 |
| 562 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Gorffennaf 2018 |
| 563 | Cyngor Sir y Fflint | 4,199.27 | Cyfraniadau Pensiwn a Diffyg Gorffennaf 2018 |
| 564 | HMRC | 2,634.13 | Didyniadau Cyflog Gorffennaf 2018 |
| 565 | Canda Copying | 338.10 | Rhentu a Chopïau Du a Gwyn |
| 566 | Canda Copying | 232.08 | Copïau lliw |
| 475 | Cyngor Sir Ddinbych | 707.00 | TANC ar gyfer Ffordd Wellington – taliad 5 o 10 |
| 476 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau rhan-amser – taliad 5 o 12 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£40,666.12** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 36. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 553 | Newsquest Media Group | Hysbyseb i gefnogi Carnifal y Rhyl | 48.00 |
| 554 | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Tanysgrifiad blynyddol 2018/19 | 80.00 |
| 555 | Gunsmoke Communications | Costau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer digwyddiad Retro Rhyl | 35.56 |
| 556 | Gwasg Helygain | Taflenni ar gyfer Retro Rhyl | 220.60 |
| 557 | Elusen Meiri Llandudno | Tocyn argyfer digwyddiad elusennol 31 Awst 2018 | 25.00 |
| 569 | Llen Brydeinig Frenhinol | Milwr | 250.00 |
| | | **Cyfanswm taliadau** | **£659.16** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **argyfwng** | |
| 558 | Y Cyngh Win Mullen James | Lwfans y Maer 18/19 Taliad 2 o 3 (£500 llai £336.16 taliadau sefydlu) | 163.84 |
| 559 | Y Cyngh E Chard | Lwfans Dirprwy Faer 18/19 Taliad 2 o 3 | 166.67 |
| 560 | BJS Solutions | Cymorth TGCh 2018/19 | 1,554.00 |
| 567 | Link Mailing Systems Ltd | Inc ar gyfer y peiriant ffrancio | 194.90 |
| 568 | Fantazia Imports Limited | Tân gwyllt ar gyfer Arddangosfa 5ed Tachwedd 2018 | 6,240.00 |
| 570 | Y Cyngh Win Mullen-James | Ad-dalu taliadau tocynnau (Cymorth y Maer) | 50.00 |
| 571 | Cyngor Sir Ddinbych | Parc Dwr y Rhyl - Taliad 2 o 3 ar gyfer 2018/19 | 32,622.00 |
| **Cyfanswm taliadau i'w gwneud ar ôl y pwyllgor hwn** | | | **£40,991.41** |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£41,650.57** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**37. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN GORFFENNAF 2018 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos perfformiad o gymharu gyda'r gyllideb.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**38. ADRODDIAD BUDDSODDIADAU: CHWARTER CYNTAF**

Cyflwynodd y Cadeirydd gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos elw ar fuddsoddiadau'r Cyngor o Ebril i Fehefin.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**39. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – NEWIDIADAU FFIN ARFARTHEDIG I ARDAL GADWRAETH Y RHYL**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddogfen ymgynghorol (llythyr wedi ei ddosbarthu gyda'r rhaglen) (copi caled o'r ddogfen lawn ar gael yn y swyddfa).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y ddogfen.*

**40. GOHEBIAETH: SWYDDOGION CYSWLLT YSGOLION – YMATEB LLYWODRAETH CYMRU**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol ar gyfer rhaglen 2019/20.

Diolchodd y Cynghorydd Mrs Win Mullen-James i'r aelodau am gefnogi ei chais bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr ohebiaeth.*

## 41. PENODI LLYWODRAETH YSGOL CYMUNEDOL YCHWANEGOL - YSGOL LLEWELYN, Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 7 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2018, adroddodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine wedi ymddiswyddo a gofynnodd i'r aelodau ystyried rhywun yn ei lle.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Ms V Roberts.*

## 42. AROLYGU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – DARGANFYDDIADAU AMLINELL AC ARGYMHELLION

Ymhellach i gofnod rhif 21 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth 2017, cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref a darganfyddiadau amlinell ac argymhellion (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) y Panel Arolygu, a oedd nawr wedi eu cyhoeddi a byddant yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a'r darganfyddiadau.*

## 43. EITEM GAN AELOD: CYN GYNGHORYDD TREF MRS MARIE McMONNIES

Talodd y Cynghorydd Mrs P M Jones deyrnged i Mrs McMonnies, a'i disgrifio fel menyw ysbrydolgar, a oedd wedi gweithio'n galed iawn a chyflawni llawer ar ran trigolion ei ward yn ystod ei 12 mlynedd fel cynghorydd tref.

Aeth y Cynghorydd Jones ymlaen i ddweud ei bod yn ffrind personol agos ac y byddai pawb a oedd yn ei hadnabod yn ei cholli'n fawr.

## 44. EITEM GAN AELOD: ASIANTAETH GYMORTH DYFFRYN

Dywedodd y Cynghorydd Mrs E M Chard ei bod wedi ymweld yn ddiweddar â darpariaeth Asiantaeth Gymorth Dyffryn yn y Rhyl, ac edmygu'r hyn a oedd ar gael yno i bobl gydag amrediad eang o anableddau, ac roedd eisiau rhannu hynny gyda'r aelodau.

## 45. EITEM GAN AELOD: 'RHYL WYLLT'

Gofynnodd Clerc y Dref am wirfoddolwyr ychwanegol i helpu yn nigwyddiad 'Rhyl Wyllt' ar ddydd Sadwrn 22ain Medi.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorwyr B. Blakeley, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King a B. Mellor yn cynnig eu gwasanaethau.*

## 46. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 47. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2015

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ddechrau paratoi adroddiad blynyddol yn rhoi tystiolaeth o sut roedd y Cyngor Tref yn gweithio tuag at saith amcan Llywodraeth Cymru a chyfrannu at gamau gweithredu a blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Diolchodd yr aelodau i Glerc y Dref am ei adroddiad cynhwysfawr iawn a chytuno y byddai angen i'r gwaith hwn gyd-fynd gyda dogfen Cynllun y Dref.

***PENDERFYNWYD***:

*(i)* *Bod Clerc y Dref yn paratoi adroddiad drafft yn ymgorffori ei waith rhagarweiniol i'r Cyngor ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf.*

*(ii)* *Bod y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol yn sicrhau bod yr Amcanion Llesiant yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Tref nesaf.*

## 48. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:…………………..

Dyddiad: ……………………..